

## Gweddi'r Pentecost

Robin Samuel

'Ond bydd yr Ysbryd Glan yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana'i wrth bawb – yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria a drwy'r byd i gyd.'  
(Actau 1:8 beibl.net)

Arglwydd ein Duw, wrth i ni gofio digwyddiadau'r Pentecost cyntaf, arwain ni i fyfyrion ar hanes y genhadaeth a'r daith sydd wedi ein harwain i'r fan hon. Rhown ddiolch am yr hyn a gyflawnwyd yn dy Enw ac yn nerth dy Ysbryd, ond hefyd yr ydym yn tristáu ...  
am yr adegau y bu i ni golli'n ffordd;  
yr adegau y bu i ni anghofio o ble y daethom a lle'r oeddem yn mynd;  
am ddiodefaint a phoen dy bobl a'th greadigaeth.

Diolchwn am genhadaeth gyflawn Duw, yn tyfu ac yn symud i drawsffurfiolo eglwysi a phobl.  
Dathlwn y syched cynyddol am adfywiad ysbrydol a disgyblaeth ddilys.  
Rhown ddiolch am addysg ddiwinyddol sy'n meithrin arweinyddiaeth Crist-debyg a thyfiant ysbrydol.

Tristawn am y modd y mae'r eglwys wedi methu tystio i'r Newydd Da:  
lle mae'r eglwys wedi colli hygredd – yn cydymffurfio â'r byd hwn yn hytrach na'i drawsnewid;  
lle mae consyrn am statws, dylanwad a grym wedi disodli'r alwad i fentro ac i aberthu.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.  
Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.  
Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am y rhai sy'n byw yn agos i'r tir ac sy'n deall ei gri am iachâd.  
Dathlwn y gweithgarwch lleol sy'n dwyn addewid dros yr holl ddaear.  
Rhown ddiolch bod cenhadaeth Duw yn un a bod yr efengyl yn cwmpasu iachawdwriaeth y bydysawd.

Tristawn am y difrod a wneir gan ddynoliaeth i brydferthwch a chyflawnder y greadigaeth:  
lle mae trachwant neu wrthdaro dynol yn gyfrifol am lygredd ac ymelwad ar y tir;  
lle mae ein hawydd am fwy yn ein dallu i'r canlyniadau byd-eang – gan ryddhau newyn a llifogydd, erydiad a difodiant.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.

Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.  
Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am dystiolaeth fywiog Cristnogion ar draws y chwe cyfandir ac am yr undod yn ein hamrywiaeth.  
Dathlwn ail-ddarganfod yr alwad genhadol i fod yn ddisgyblion – gan ein tynnu yn ôl at wreiddiau ein ffydd.  
Rhown ddiolch am y cydweithio a'r trafod gyda sefydliadau seciwlar sy'n rhannu'r un nodau cyffredin.

Tristawn at eilunaddoliad yr hunan a thwf unigolyddiaeth sy'n chwalu cymuned:  
lle mae pobl yn dianc i'w blychau bach o hunanoldeb ac unigrwydd;  
lle bo'r ysbryd seciwlar yn gwrthod her ffydd a dirgelwch y gymundeb ddwyfol.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.  
Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.  
Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am amrywiaeth gyfoethog y ddelw ddwyfol mewn pobloedd a diwylliannau.  
Dathlwn roddion cyfoethog Duw yn noethineb diwinyddiaethau rhyddhad a chyd-destunol.  
Rhown ddiolch am ddealltwriaethau newydd a chydgyfeiriol o gariad, bywyd a llawenydd yr efengyl.

Tristawn at yr anghyfartaledd cywilyddus rhwng cyfoethog a thlawd ym myd Duw:  
lle defnyddir gwahaniaethau i anffafrio ac i fwydo trais a gwrthdaro;  
Pan fod rhai wedi eu dallu gan gyfoeth gormodol ac yn ddidostur yn caniatáu i eraill farw.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.  
Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.  
Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am genhadaeth gyflawn Duw a chariad arbennig Duw tuag at y 'rhai bach'.  
Dathlwn eglwysi yn torri lawr hen batrymau grym a rheolaeth.  
Rhown ddiolch am batrymau newydd o gydrannu a chydweithio eciwmenaid.

Tristawn at ymddangosiad diwinyddiaeth ffyniant sy'n drysu rhwng bendithion ysbrydol a materol:  
lle mae pobl yn cael eu twyllo gan addewid am gyfoeth yn dâl am addoliad derbyniol;

pan fod eglwysi yn camddeall neu'n gwyrddroi Newydd Da Duw ar gyfer y tlawd.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.

Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.

Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am bobl ddiffuant eu ffydd sy'n ceisio'n ostyngedig i gyflawni ewylllys Duw.

Dathlwn eglwysi yn trafod ac yn tystiolaethu, mewn gweddi a gweithred, yn cwrdd ag angen ysbrydol a materol.

Rhown ddiolch am sgandal y Meseia croeshoeliedig a grym achubol y Crist atgyfodedig.

Tristawn am rym dinistriol eithafiaeth grefyddol a'r arswyd a grëir ganddo:

Ile mae ieuencid yn cael eu radicaleiddio a gwledydd yn cael eu clwyfo;

Ile mae ffydd yn cael ei wyrddroi i greu ofn, ac yn cael ei hau a'u drosglwyddo gan gyfryngau byd-eang.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.

Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.

Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am yr Efengyl sy'n herio Cristnogion i groesawu'r dieithryn a pharchu diwylliannau gwahanol.

Dathlwn pan fydd eglwysi yn ymateb i'r hiraeth am gael perthyn.

Rhown ddiolch am yr arweiniad cenhadol i'r rhai sydd wedi eu heithrio ac wedi eu gwthio i'r cyrion.

Tristawn am bresenoldeb cyson gwrthdaro a thlodi sy'n gorfodi pobl i godi gwreiddiau a symud:

Ile mae teuluoedd, wrth ffoi a mudo, yn mentro popeth er mwyn cael cysgod a diogelwch;

Ile mae pobl heb obaith yn cael eu camddefnyddio a phobl fregus yn cael eu caethiwo.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.

Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.

Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am yr Ysbryd Glan yn tyfu ac yn meithrin cymunedau sy'n iachau ac yn cymodi.

Dathlwn ddoniau gwyddoniaeth sy'n cyfoethogi ac yn dyrchafu bywyd.

Rhown ddiolch am yr ymwybyddiaeth a'r cydgysylltu byd-eang sy'n deillio o dechnoleg newydd a chyfryngau cymdeithasol.

Tristawn am bob sefyllfa lle mae Cristnogion yn cystadlu a'i gilydd yn hytrach na chydweithio:

Ile mae dulliau anfoesol o genhadu yn gwyrddroi efengyl iechyd a chymod;  
pan fo ffyrdd newydd o gyfathrebu yn ynysu ac yn pegynnu.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.

Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.

Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Diolchwn am dwf a bywiogrwydd eglwysi'r gwledydd sy'n datblygu.

Dathlwn yr arweinyddiaeth newydd a'r genhadaeth gyflawn, sy'n cynnwys ac yn galluogi.

Rhown ddiolch am ein galwad cyffredin i dystio ac am bob cam bach tuag at undod ymhlith Cristnogion.

Tristawn am y dirywiad mewn ffydd a thystiolaeth Gristnogol ddilys yn y gwledydd a'r eglwysi cyfoethog:

Ile mae ffydd Gristnogol wedi ei datgysylltu oddi wrth brofiad bob dydd;

Ile mae cenhadaeth a thystiolaeth heddiw yn parhau patrymau afiach o ymerodraeth ddoe.

Pan anghofiwn gariad diysgog Dduw, cyffro ni i dosturi dwfn.

Pan anghofiwn mai pobl Dduw ydym, tyn ni ynghyd yn gorff Crist.

Pan anghofiwn ein lle yn y greadigaeth, ysbrydola ni ag Ysbryd y bywyd.

Bydded i waredigion yr Arglwydd adrodd eu stori, y rhai y mae Duw wedi eu galw o'r dwyrain a'r gorllewin, y gogledd a'r de.

Rhown ddiolch i'r Duw sydd a'i gariad yn dragwyddol.

Rhown ddiolch i'r Crist sy'n rhoi'r bywyd cyflawn.

Rhown ddiolch i'r Ysbryd sy'n parhau i weithio.

Molwn yr Arglwydd! Molwn yr Arglwydd!

Amen!